**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At holl Aelodau'r Cynulliad

08 Hydref 2018

Annwyl Aelodau'r Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch cau Canolfan Gyswllt Virgin Media yn Abertawe.

Efallai y gwyddoch, yn dilyn yr ymarfer ymgynghori ar y cyd a gynhaliwyd yn ystod yr haf, fod Virgin Media wedi gwrthod y gwrth gynnig, ac mae'r penderfyniad i gau'r safle cyfan wedi'i gadarnhau. Yn dilyn y newyddion siomedig hyn, aethom ati i helpu'r staff yr effeithiwyd arnynt.

Drwy gydol yr haf, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng swyddogion a rheolwyr Virgin Media a chynrychiolwyr y gweithwyr i asesu'r sefyllfa bresennol a chynnig help lle y bo'n briodol. Yn ystod trafodaethau gyda'r cwmni yn dilyn y newyddion o'r cynlluniau i gau'r safle, ceisiwyd cael sicrwydd y byddai Virgin Media yn cydweithredu gyda grŵp cynrychioli'r gweithwyr i helpu i sicrhau y canlyniadau gorau i'r staff. Rydym yn falch iawn bod Virgin Media wedi cymryd y cyfrifoldeb o roi'r cyfle i'r staff drafod gyda phrif bartneriaid ein Tasglu ar y safle, gan gynnwys Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyflogwyr lleol.

Byddwn yn parhau i drafod gyda chyflogwyr mawr eraill yn yr ardal sy'n recriwtio ac sydd efallai angen y sgiliau sydd gan y bobl hynny fydd yn colli eu swyddi o bosib gyda Virgin Media. Rydym yn cydweithio'n agos â Virgin Media ynghylch hyn.

Yn ogystal â hyn, mae Fforwm Canolfan Gyswllt Cymru yn trefnu Ffair Swyddi i'w chynnal yn ddiweddarach yn y mis ar safle Virgin Media. Bydd y ffeiriau hyn yn dod â chyflogwyr sy'n recriwtio o fewn yr ardal at ei gilydd yn ogystal â rhoi cyngor gyrfaol i'r staff hynny sy'n chwilio am waith arall.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at uwch-reolwyr Virgin Media i bwysleisio dau bryder a ddaeth i'm sylw yn ystod y diwrnodau diwethaf. Rwyf wedi gofyn am sicrwydd y bydd unrhyw weithwyr sydd wedi cael cynnig  gwaith newydd gyda dyddiad dechrau ychydig cyn un o'r dyddiadau gadael a nodwyd yn dal i allu hawlio tâl dileu swydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hefyd, rwyf wedi gofyn i'r cwmni ddarparu mwy o wybodaeth am yr hawliadau a gynigir i weithwyr sy'n penderfynu aros gyda'r cwmni hyd nes y dyddiad gadael olaf. Rwyf wedi gofyn i'r cwmni gyfathrebu'n glir ac yn fanwl gyda'r staff ym mhob agwedd ar ei waith.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport